Ac fe ddeffrôdd a cheryddu'r gwynt a dywedodd wrth y môr, "Bydd ddistaw! Bydd dawel!"
(Marc 4:39)

Dyma Feistr y gwynt a'r môr yn dangos awdurdod dwyfol ar y greadigaeth trwy beri llonyddwch yn yr elfennau a hefyd yng nghalonnau'r disgyblion. Mae'r wyrth yma'n ein cyfeirio ninnau hefyd at yr Arglwydd Iesu, os ydym am gael yr un llonyddwch yn ein bywydau heddiw.

Stormydd Môr Galilea

Llyn gweddol fawr yw Môr Tiberias, mewn gwirionedd. Mae'n mesur tair milltir ar ddeg yn ei hyd o'r de i'r gogledd ac wyth milltir ar draws yn y man lletaf. Mae'n gorwedd 680 o drodfeddi o dan lefel Môr y Canoldir. Mae mynyddoedd a dyffrynnoedd i'r gorllewin, a phan ddaw gwynt cryf o'r cyfeiriad hwnnw, mae'r dyffrynnoedd yn gweithio fel twnelau sy'n cyfeirio'r gwynt i gyfeiriad y môr. Mae hyn yn gallu codi storm fawr mewn llai na hanner awr. Mae'n amlwg mai hyn sydd wedi digwydd yn yr hanes yma. Roedd yn ddigon o storm i greu arswyd ymhlith y disgyblion i gyd, a rhai o'r rheini'n bysgotwyr profiadol.

Dychryn ac arswyd

Mae'r disgyblion yn amlwg yn teimlo bod y cyfan ar ben. Mae nhw'n anobeithio wrth weld y tonnau'n gorchuddio'r cwch bychan. Ar ben hynny, mae'r Arglwydd yn cysgu'n drwm yn y starn. Sut allai fod mor ddi-hid? Nid amser i gysgu oedd hyn!

Ac, wrth gwrs, mae profiadau fel hyn yn gallu dod i ni heddiw, heb i ni fod mewn cwch ar y môr.

Storm pechod ac euogrwydd

Am ein bod yn byw mewn oes lle nad oes llawer o ymwybyddiaeth o bechod yn erbyn Duw yn gyffredinol, mae'n hawdd i ni feddwl nad yw pobl ddim yn teimlo euogrwydd o gwbl. Dydy hynny ddim yn wir. Mae llawer o bobl, i ryw raddau neu'i gilydd, yn ymgodymu â theimladau o fethiant a bod yn annigonol. Ac mae sylweddoli beth yw safon Duw ar ein cyfer hefyd yn debyg o fagu ymdeimlad o euogrwydd 'fel mynyddoedd byd' ar ein hysgwyddau.

Mae Deg Gorchymyn Duw, sy'n cael eu cadarnhau gan yr Arglwydd Iesu, yn dweud wrthym bod dyled arnom i garu Duw â'n holl berson ac i garu'n cymydog fel ni ein hunain. Mae ystyried hynny o ddifrif yn codi arswyd ar berson o sylweddoli ei bod yn amhosib i ni fyth gyrraedd y fath safon. Mae'n teimlo fel un sy'n clywed y gwynt yn codi ar Fôr Galilea.

Mae ein methiant i garu Duw a chyd-ddyn yn llwyr yn ein gwneud yn euog gerbron Duw, ac yn agored i gosb cyfiawn Duw. Rhybuddiodd Duw Israel trwy Moses, gan ddweud: **"Os byddwch yn anghofio'r Arglwydd eich Duw ac yn mynd ar ôl duwiau eraill ac yn eu gwasanaethu ac yn ymgrymu iddynt, yna yr wyf yn eich rhybuddio heddiw y byddwch yn cael eich dinistrio'n llwyr"** (Deut. 8:19). O sylweddoli hyn, mae'r tonnau'n codi dros ein pen, fel petai. Sut mae dianc? Pwy ohonom all fod yn dderbyniol gerbron Duw glân a sanctaidd?

Yna pan fo'r Arglwydd Iesu yn ein dysgu y bydd raid i ni ateb am ein bywyd gerbron gorsedd y nef yn Nydd y Farn, mae'n ymddangos bod pob gobaith yn diflannu. **"Pan ddaw Mab y Dyn yn ei ogoniant, a'r holl angylion gydag ef, yna bydd yn eistedd ar orsedd ei ogoniant. Fe gesglir yr holl genhedloedd ger ei fron, a bydd ef yn eu didoli oddi wrth ei gilydd"** (Math. 25:31). Oes posib i bechadur gael ei dderbyn gan Fab y Dyn ar y dydd hwnnw?

Tawelu'r storm

Mae Efengyl Iesu Grist yn sôn am faddeuant o bob pechod a derbyniad llawn gan Dduw i ni fel rhai cyfiawn. Mae heddwch gyda Duw yn dod i ni trwy ffydd yn Iesu Grist a'i gyfiawnder Ef.

Mae Ef wedi cadw gorchmynion Duw fel y dyn perffaith. Mae Duw y Tad wedi cyhoeddi o'r nef ei fod yn fodlon ar ei annwyl Fab. Mae Ef wedi marw fel pechadur i gymryd cosb ein pechodau ni, a hynny ar groes Calfaria. Mae Ef wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw y trydydd dydd fel arwydd pendant, hanesyddol fod Duw wedi derbyn ei aberth a'i daliad dros bechaduriaid.

Mae hyn yn golygu fod maddeuant a derbyniad i unrhyw bechadur sydd yn cyffesu ei bechod ac yn ymddiried yn llwyr yn Iesu Grist fel ei Waredwr, i'w achub yn llwyr o'i bechodau, a hefyd sydd yn ei dderbyn fel Arglwydd ar ei fywyd.

"Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist" (Rhuf. 5:1).